**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

—

**Economy, Trade and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Tracey Cooper
Prif Weithredwr
Iechyd Cyhoeddus Cymru

11 Tachwedd 2022

Annwyl Tracey,

Bil Amaethyddiaeth (Cymru) – Cynigion i wahardd defnyddio trapiau glud yng Nghymru

Mewn cyfarfod o'r Pwyllgor ar 9 Tachwedd cafodd yr Aelodau dystiolaeth ar egwyddorion cyffredinol y Bil Amaethyddiaeth (Cymru), yn benodol ar y cynigion yn Rhan 5 o'r Bil i wahardd defnyddio maglau a trapiau glud.

Mewn tystiolaeth gan gyrff sy'n masnach mewn rheoli plâu - Cymdeithas Rheoli Plâu Prydain (BPCA) a Chymdeithas Genedlaethol Technegwyr Plâu (NPTA) – dywedwyd y byddai cael gwared ar drapiau glud fel opsiwn ar gyfer rheoli cnofilod gan reolwyr plâu proffesiynol yn cael effaith niweidiol ar iechyd y cyhoedd, a bod y cynigion yn fater pwysig o ran iechyd cyhoeddus. Ond dywedodd Prif Weithredwr y BPCA ei fod yn aros am ymateb gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ynglŷn â barn Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y cynigion.

Mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw crynodeb Llywodraeth Cymru o'r ymatebion i ymgynghoriad rhanddeiliaid wedi'i dargedu a galwad am dystiolaeth ar drapiau glud yn cyfeirio at safbwynt gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu gwybod beth yw safbwynt Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y cynigion. Byddai'n ddefnyddiol pe bai hyn yn cynnwys rhagor o wybodaeth am ba mor eang yw'r defnydd o drapiau glud mewn adeiladau cyhoeddus yng Nghymru fel ysgolion ac ysbytai, pa ddulliau amgen y mae'n rhagweld fyddai'n cael eu defnyddio ar gyfer rheoli cnofilod i amddiffyn iechyd y cyhoedd yn dilyn gwaharddiad llwyr, ac a oes gan Iechyd Cyhoeddus Cymru unrhyw bryderon neu farn arall ar oblygiadau tebygol gwaharddiad yng Nghymru.

Daw ymgynghoriad y Pwyllgor ar y Bil i ben ddydd Gwener 11 Tachwedd, a bydd y Gweinidog yn cael ei holi ymhellach ar y Bil yng nghyfarfod y Pwyllgor ddydd Mercher nesaf 16 Tachwedd, ac ar ôl hynny bydd y Pwyllgor yn llunio ei adroddiad ar y cynigion. Felly byddai ymateb ar y mater hwn cyn gynted â phosibl yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan yr Aelodau.

Mae'r dystiolaeth ysgrifenedig a llafar ar y mater hwn i'w gweld drwy agor y linc uchod, ac mae linc i'r Bil a'r memorandwm esboniadol i'w gael yma.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb cyn gynted â phosibl.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.